

Cyngor Cymuned Mæchell Community Council

COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD NÔS LUN 13/1/2014
MINUTES OF THE MEETING HELD ON MONDAY EVENING 13/1/2014

Presennol / Present

Mrs H Mary Hughes (Cadeirydd / Chair)
Mr Tony Jones (Is-Gadeirydd / Vice Chair)
Mr Jac Jones
Mr Adrian Parry
Mr Owen Mostyn Williams
Mrs Dawn Griffith-Jones
Mrs Elin Wynne
Cyng. / Cllr. John Griffith
Mrs Helen Mai Beck (Clerc / Clerk)

1. Croesawu / Welcome

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
The Chair welcomed everyone to the meeting.

Wedi ei nodi ar yr agenda - Cyflwyniad gan Celtic Array wedi ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.
Scheduled on the agenda - Presentation from Celtic Array postponed until the next meeting.

2. Ymddiheuriadau / Apologies

Derbynwyd ymddiheuriadau gan Mrs Elaine Rowlands.
Apologies were received from Mrs Elaine Rowlands.

3. Cofnodion / Minutes

Derbynwyd cofnodion cyfarfod 11/11/2013 fel rhai cywir. Cynigwyd gan Mr Tony Jones ac eilwyd gan Mr Adrian Parry.

The minutes were accepted as a true record of the meeting on 11/11/2013. Mr Tony Jones proposed and Mr Adrian Parry seconded.

5. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

- Scottish Power – Dim mwy o wybodaeth gan Mr Jac Jones hyd yn hyn.
Scottish Power – Mr Jac Jones had no further information as of yet.
- Coed gan Horizon – Maent wedi ail-gychwyn torri a dosbarthu coed. Mr Jac Jones i gysylltu a Mr Richard Foxhall eto.
Wood donated from Horizon – They have re-started cutting and distributing wood. Mr Jac Jones to contact Mr Richard Foxhall again.
- Diweddariad ynglyn a camerâu CCTV ac y giât – Ni gafwyd y grant gan Grantscape ond penderfynwyd archebu giât i'r parc oherwydd lechyd a Diogelwch a thalu o Gronfa Melinau Gwynt.
Gweithred – Mr Tony Jones i ddelio a'r mater yma.
Update regarding the CCTV cameras – Did not obtain the Granscape grant. However, it was decided to purchase the gates for the park due to Health & Safety reasons and to pay from the Windmill Fund.
Action – Mr Tony Jones to deal with this matter.

- Llwybr Tyddyn Cywarch (gamfa) – Dim mwy o wybodaeth.
Tyddyn Cywarch footpath (stile) – No more information to be had.
- Llwybr Rockville – Angen twtio y llwybr.
Rockville Footpath – Footpath needs to be tidied.
- Cyrsiau Un Llais Cymru – Mr Jac Jones wedi trafod pellter lleoliadau y cyrsiau. Nid oes modd cael linc fideo.
One Voice Wales courses – Mr Jac Jones has discussed the distance of locations for the courses. There is no possibility of a video link.
- Lonydd yn yr ardal – Mae gwaith ar y lonydd ar fin cael ei gwneud / gorffen.
Gweithred – Llythyr o ddiolch i Cyngor Sir Ynys Môn am y gwaith wedi ei wneud.
Roads in the area – Work on the roads are nearly done / completed.
Action – Letter of thanks to the Isle of Anglesey County Council for the work done.
- Camfa yng Ngharreglefn – Gwaith wedi cael ei gwblhau, y gôst yw £80.
Stile in Carreglefn – The work has been completed and the cost is £80.
- Mae posteri hysbysu y seddi am 2 Gynghorydd yn ward Carreglefn wedi cael ei rhoi i fyny.
Posters for the 2 vacant seats within the Carreglefn ward have been put up.

5. Ffyrdd / Highways

- Derbynwyd cŵyn ynglyn a'r gwaith ar ffordd yng Ngharreglefn sydd yn peri problem i drigolion yn yr ardal.
Gweithred - Ysgrifennu llythyr i'r Adran Briffyrdd.
A complaint was received regarding a road in Carreglefn that is posing problems for the residents in the area.
Action – Write a letter to the Highways Department.
- Derbynwyd cŵynion ynglyn a ffyrdd: Ffordd Pengroes i'r groesffordd; Lon yn top Carreglefn; Sgwâr y Pentref; Groeslon Bryn Clyni; Stad Penbodeistedd.
Gweithred - Ysgrifennu llythyr i'r Adran Briffyrdd.
- *Complaint regarding roads were received: Pengroes road to the crossroads; Top road in Carreglefn; Village square; Cyffordd by Bryn Clyni; Penbodeistedd Estate.*
Action – Write a letter to the Highways Department.

6. Gohebiaethau / Correspondence

- Derbynwyd ebôst gan Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau ar gael.
An email was received from One Voice Wales with a list of courses available.
- Derbynwyd ebôst gan UN Llais Cymru gyda gwybodaeth am Reolau Sefydlog.
An email was received from One Voice Wales regarding Standing Orders.
- Derbynwyd ebôst gan Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn a'r Fforwm Gynllunio a gafodd ei gynnal ar 10fed o Hydref 2013.
An email was received from the Isle of Anglesey County Council regarding the Planning Forum that was held on the 10th of October 2013.
- Derbynwyd ebôst gan ROSPA am Arolygion Blynyddol Ardaloedd Chwarae yn 2014.
An email was received from ROSPA with regard to Annual Play Area Inspections in 2014..
- Derbynwyd llythyr o ddiolch gan y Rhwyd a Urdd Gobaith Cymru am y rhodd.
A letter of thanks was received from the Rhwyd and Urdd Gobaith Cymru for the donation.

- Derbynwyd ebôst gan Un Llais Cymru ynglyn â 'Sefyllfa Cynrychiolaeth Un Llais Cymru ar Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr'.
An email was received from One Voice Wales regarding 'One Voice Wales representative on the Betsi Cadwaladr University Health Board Stakeholder Reference Group'.
- Derbynwyd ebôst ynglyn â 'Gwefan i'r Gymuned' gan Mr Arfon Parry. Trafodwyd a phenderfynwyd symyd ymlaen gyda'r gwaith ar y wefan a gofyn i Mr Nigel Thomas ymwneud a'r gwaith.
An email was received from Arfon Parry with regard to 'Website for the Community'. It was discussed and decided to move forward with the website and ask Mr Nigel Thomas to do the work.
- Derbynwyd diweddariad a gwybodaeth gan Airvolution (Ysgellog 2).
An update and information was received from Airvolution (Ysgellog 2)..
- Derbynwyd llythyr gan Pŵer Niwclear Horizon ynglyn a ddyddiadau a lleoliadau Cymorthfeydd Agored.
A letter was received from Horizon Nuclear Power with dates and locations of upcoming Open Surgeries.
- Derbynwyd ebôst ynglyn a 'Adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor'
An email was received with regard to the 'Council Tax Reduction Scheme Review'.
- Derbynwyd llythyr gan Un Llais Cymru ynglyn a Garddwestau Palas Buckingham ar y 21ain o Fai 2014.
A letter was received from One Voice Wales with regard to Buckingham Palace Garden Parties on the 21st May 2013.
- Derbynwyd ebôst gan y Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn â 'Seminar Posib ar gyfer Tai – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd'.
An email was received from the Isle of Anglesey County Council with regard to 'Possible Housing Sites Seminar – Joint Local Development Plan'.
- Derbynwyd ebôst Cyngor Sir Ynys Môn ynglyn a Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned sydd yn cael ei gynnal ar y 23ain o Ionawr 2014. Mae'n bwysig i fynychu y cyfarfod yma.
An email was received from the Isle of Anglesey County Council regarding a Town and Community Councils Liaison Meeting which is being held on the 23rd January 2014. It is important to attend this meeting.
- Derbynwyd llythyr gan Un Llais Cymru yn hysbysu cyfarfod ar y 29ain o Ionawr 2014. Mr Jac Jones i fynychu.
A letter was received from One Voice Wales regarding a meeting which is being held on the 20th January 2014. Mr Jac Jones too attend.
- Derbynwyd taflen gyda Rheolau Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymuned Llanfechell.
A document was received with Rules from the Llanfechell Community Centre Management Committee.

7. Biliau / Bills

- Derbynwyd biliau gan / Bills were received from:
 - Mr J Roberts (archwilio cyfrifon / audit of accounts) - **£60.**
 - Inc ar gyfer argraffydd y Cyngor Cymuned / Inks for the Community Council printer - **£47.90.**
 - Tâl y Clerc / Clerk's Wages - **£375.**
 - Llogi ystafell Ysgol Carreglefn / Hire of room in Carreglefn School- **£10.**
- Derbynwyd arian gan / Monies were received from:
 - Presept CSYM / IOACC Precept - **£2572.50.**

Rhoddion / Donations

- Datganodd Mr Adrian Parry diddordeb yn yr eitem yma. Trafodwyd a penderfynwyd rhoi rhodd i Canolfan Gymuned Carreglefn o Gronfa y Melinau Gwynt tuag at costau agor a cau / *It was discussed and decided to donate money to Carreglefn Community Centre from the Windmill Fund for opening and closing costs - £1428.55.*
- Derbynydd gan Radio Ysbyty Gwynedd yn gofyn am rhodd. Rhoi yn y ffeil nes mis Ebrill 2014 / *A letter asking for a donation was received from Radio Ysbyty Gwynedd. The letter to be put on file until April 2014.*

8. Cynllunio / Planning

- Datganodd y Cynghorydd John Griffith diddordeb yn yr eitem yma a ni gymerodd rhan yn y drafodaeth.
Councillor John Griffith declared an interest in this item and took no further part in the discussion..
- Derbynydd ebôst gyda penderfyniad apêl Fferm Rhosbeirio (38C292C).
An email was received with an appeal decision for Rhosbeirio Farm (38C292C)
- Bwthyn y Wennol, Llanfechell (38C81B) – Cais llawn ar gyfer Addasu ac ehangu. Datganodd Mrs Elin Wynne diddordeb yn yr eitem yma. Dim sylwadau.
Bwthyn y Wennol, Llanfechell (38C81B) – Full application for alterations and extensions. Mrs Elin Wynne declared an interest in this item. No comments.
- Gorsaf Bŵer Wylfa, Cemaes (20C265B) – Gwaith archwiliad daear arfaethedig am gyfnod o 12 mis. Dim sylwadau.
Wylfa Power Station, Cemaes (20C265B) – Proposed ground investigation works for a period of 12 months. No comments.

9. Unrhyw fater arall / Any other matters

- Precept 2014/15 – Trafodwyd a penderfynu erbyn y cyfarfod nesaf.
Precept 2014/15 – It was discussed and decided by the next meeting.
- Cloc y Pentref – Mr Jac Jones yn egluro fod angen gwaith ar tŵr y Cloc i'w arbed rhag y tywydd. Mr Jac Jones i wneud y trefniadau perthnasol.
Village Clock – Mr Jac Jones explained that the Clock tower needs to be weather-proofed. Mr Jac Jones to make the necessary arrangements.
- Siop y Pentref - Mae Siop y Pentref nawr wedi cau. Mae Menter Mechell gyda'r bwriad o'i phrynu fel siop i'r Plwyf. Gofynnwyd os oedd posib cael addewid o fenthyciad arian o Cronfa y Melinau Gwynt am flwyddyn i helpu sicrhau y pryniant. Trafodwyd a penderfynwyd ysgrifennu llythyr o addewid am £9000.00 os bydd angen.
Village Shop - The Village Shop has now closed. was for sale. Menter Mechell is intending to buy the shop as a village venture. In order for the purchase to be possible, the Community Council was asked if a sum of money could be borrowed from The Windmill Fund for a year. It was discussed and decided to write a letter of promise for £9000.00 should it be required.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Cyfarfod nesaf NOS LUN 10fed o Chwefror 2014 7.30 o'r gloch yn Ysgol Carreglefn.
Next meeting MONDAY 10th February 2014 at 7.30pm in Carreglefn School.

Arwyddwyd/Signed
Cadeirydd/Chairperson

Dyddiad/Date.....